



# Diweddariad Cymunedol

Gwanwyn 2016



## Yn y rhifyn hwn

T1 Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

T2 Newyddion cymunedol

T3 3 Chwrs a Chystadleuaeth

T4 Newyddion Awdurdod y Parc Cenedlaethol

T5 Newyddion Cadwraeth

T6 Cyflawniadau Gwirfoddolwyr

T7 Digwyddiadau Gwanwyn a Haf

T9 A-Y Rhestr Cysylltiadau'r Awdurdod

## Helo a chroeso

i rifyn Gwanwyn 2015 o'r Diweddariad Cymunedol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau dal i fyny gyda gwaith, newyddion a straeon o bob cwr o'r Parc Cenedlaethol.

Os hoffech chi gael eich rhoi ar ein rhestr bostio neu gyfrannu at rifynnau yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy'r A-Y o wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Diolch yn fawr.

*John Cook*

*Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*

## Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau cymunedol

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) yn anelu at gefnogi prosiectau sy'n rhoi sylw i faterion economaidd, amgylcheddol, cymunedol a diwylliannol ac sydd hefyd yn gwella ansawdd bywyd i gymunedau yn y Parc Cenedlaethol.

**Dyma rai o'r prosiectau a elwodd yn 2015/16:**

Dyfarwyd grant o £9,200 i **Gyfnewidfa Yd Crughywel** ar gyfer swydd weinyddol i gefnogi ailddatblygu'r gyn Gyfnewidfa Yd dan arweiniad y gymuned



Trigolion yng Nghrughywel yn dangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch i ariannu datblygiad y Gyfnewidfa Yd.

Dyfarwyd £14,932 i **Brosiect Brechu Moch Daear y Mynydd Du** i gefnogi'r prosiect hwn yn ei flwyddyn gyntaf. Mae'r grant yn rhan o arian cyfatebol gyda chyfraniad gan Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi'r prosiect am 5 mlynedd.

## Prosiect 'Geogelcio' yn mynd o nerth i nerth

Mae prosiect 'Geogelcio' sy'n cael ei ariannu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru, wedi bod yn mynd am naw mis ac eisoes cafwyd rhai llwyddiannau nodedig. Mae dwbl y targed cychwynnol o arweinwyr ieuencid wedi cael eu hyfforddi i gynnal sesiynau geogelcio yn barod. Mae gan rai o'r grwpiau sy'n rhan o'r prosiect anawsterau dysgu /neu broblemau emosïynol ac ymddygiadol.



### Pobl ifanc o Ferthyr yn mwynhau geogelcio yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.

Cryfder y prosiect yw ei fod wedi rhoi cyfle i'r bobl ifanc hyn gymryd rhan a chyfrannu at weithgaredd y gallent fod wedi eu heithrio ohono o'r blaen. Mae trydydd cam y prosiect ar waith erbyn hyn sy'n golygu galluogi'r grwpiau ieuencid hynny sy'n cymryd rhan yn y prosiect i ddechrau defnyddio geogelcio yn eu hardaloedd a darparu rhestr gynhwysfawr o gyfleoedd ariannu y gall y grwpiau gysylltu â nhw i brynu offer ar gyfer geogelcio.

Mae'r prosiect bellach yn edrych ar gyfleoedd i gyrraedd hyd yn oed mwy o grwpiau ieuencid yn ardaloedd Torfaen, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Merthyr. Cynhelir cyrsiau hyfforddi i arweinwyr 'Geogelcio' ar y 27 Chwefror a ym mis Ebrill a mis Mehefin. E-bost: [geocaching@beacons-npa.gov.uk](mailto:geocaching@beacons-npa.gov.uk) neu ffoniwch 01874 624437 am fwy o fanylion.

## Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau cymunedol

Dyfarnwyd £15,000 i'r **Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd** i gefnogi'r gwaith o ddechrau 'Llwybr y Ddyffirdd' ar hyd Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog rhwng Glanfa Goetre a Basn Aberhonddu. Cafodd ei ariannu fel rhan o brosiect ehangach a gefnogwyd gan Dreftadaeth y Loteri ac Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog.

Dyfarnwyd £15,000 i **Eglwys y Santes Fair**, Aberhonddu i ariannu elfennau o brosiect adfer treftadaeth ehangach gan gynnwys gwella hygyrchedd a diogelwch drwy ddrws deheuol yr eglwys a map o'r llwybr mewn braille i'w osod ar fwrdd a sylwebaeth sain fel rhan o'r Llinell Amser Treftadaeth a'r Llwybr Darganfod.

Dyfarnwyd £7,500 i **Grŵp Cymunedol Pontsticill** i gyflawni eu prosiect i adfywio'r pentref. Mae'r grŵp gweithgar hwn o wirfoddolwyr, sy'n pryderu am y lleihad mewn gwasanaethau yn eu pentref, yn canolbwyntio ar wella amgylchedd eu pentref, ailagor y toiledau, datblygu grŵp i blant bach yn y pentref a thacluso mynwent Taf Fechan. Mae'r grŵp yn annog y pentref cyfan i gymryd rhan.

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy bellach yn derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Os oes gennych unrhyw syniadau arloesol am brosiectau ac os hoffech gael gwybod a ydynt yn gymwys i gael arian cysylltwch â Helen Roderick [helen.roderick@beacons-npa.gov.uk](mailto:helen.roderick@beacons-npa.gov.uk), neu Ceri Bevan [ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01874 620471. Dyddiadau cau: 14 Mawrth, 8 Mehefin, 31 Awst a 2 Tachwedd.

## NEWYDDION CYMUNEDOL • NEWYDDION CYMUNEDOL

## Prosiect 'Inspironment' yn helpu grwpiau i fwynhau'r awyr agored

Mae grwpiau cymunedol ledled De Cymru yn cael eu helpu i fynd allan a mwynhau'r Parc Cenedlaethol drwy gyfres o ddyddiau hyfforddi arweinwyr ac ymweliadau grŵp. Mae'r 'Prosiect Inspironment' yn anelu at ysbrydoli'r rheiny sy'n ansicr sut i wneud defnydd o'r Parc neu beth sydd ar gael iddyn nhw, i ddod yn ymwelwyr rheolaidd, mwy actif ac i fwynhau ei amgylchedd arbennig.

Mae'r prosiect, a ariennir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei arwain gan dîm



### Aelodau Grŵp Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn mwynhau ymweliad â Pharc Gwledig Craig-y-nos.

Cymunedau Cynaliadwy'r Parc Cenedlaethol. I ddechrau, fe wnaethant gynnal chwe diwmod hyfforddi ar gyfer arweinwyr grwpiau gan roi gwybodaeth ac adnoddau am y Parc Cenedlaethol a thynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer hamdden a gweithgareddau awyr agored. Gyda chefnogaeth y tîm Cymunedau, mae'r arweinwyr bellach yn dod â'u grwpiau i'r Parc ar gyfer teithiau cerdded a gweithgareddau fel geogelcio. Mae arian ar gael i helpu i dalu costau trafnidiaeth a bydd pob grŵp sy'n cymryd rhan yn derbyn pecyn gwybodaeth o'r teithlenni cerdded, tafenni, llyfrau ac adnoddau i'w helpu gyda'u teithiau cerdded a'u gweithgareddau eu hunain yn y dyfodol. Bydd y teithiau cerdded ar gael i bawb eu defnyddio ar ddiwedd y prosiect ym mis Ebrill drwy wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnig llwybrau cerdded ar gyfer gwahanol lefelau o allu a gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus, mynediad a lluniaueth. Mae grwpiau sydd wedi bod yn cymryd rhan wedi cynnwys y


rheiny sy'n cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl, a rhai sydd â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, gofalgwyr ifanc a phobl hŷn.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn:

*"Mae wedi fy annog i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau awyr agored ac mae wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o'r Parc Cenedlaethol"* L.S. SANDS Cymru (Prosiect Cyffuriau Abertawe gynt).

*"Mae hwn wedi bod yn brosiect gwerth chweil iawn. Mae wedi fy helpu i wneud nifer o ffrindiau newydd ac ymdopi â'r unigrwydd ac yn aml y diflastod o fyw ar fy mhen fy hun"* M.S. Cymunedau yn Gyntaf Six Bells.

Cymerwch ran yn ein  
cystadleuaeth llun  
ac enillwch iPhone!



Lansiwyd cystadleuaeth Instagram  
Ddydd Calan sy'n cael ei threfnu  
gan Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Bannau Brycheiniog i ddathlu 2016  
fel Blwyddyn Antur Cymru.

Nod y gystadleuaeth, sy'n cael ei  
hariannu gan Croeso Cymru, yw  
annog trigolion ac ymwelwyr o drefi a  
dinasoedd cyfagos i ymweld â'r Parc  
Cenedlaethol gan ddefnyddio  
trafnidiaeth gyhoeddus a rhannu lluniau  
o'u taith a'u hantur ar Facebook,  
Instagram a Twitter.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn lle  
delfrydol i gael antur oherwydd ei  
dirwedd hardd i'w grwydro a  
gweithgareddau awyr agored cyffrous  
i roi cynnig amyn nhw.

Gweler [www.breconbeacons.org](http://www.breconbeacons.org)  
am syniadau a gwybodaeth.

Mae'r rhai sy'n cystadlu yn cael cyfle i  
ennill iPhone a gobeithir y bydd llawer  
o bobl yn cymryd rhan. Mae'n ffordd  
ddefrydol o gychwyn 2016 yn y ffordd  
iawn.

Mae'r gystadleuaeth yn parhau tan  
14 Mawrth, 2016, a dylai rhai sy'n  
cymryd rhan ddefnyddio'r hashnod  
#destinationbreconbeacons a  
thagio'r lluniau @BreconBeacons  
Os byddwch yn rhoi cynnig ar y  
gystadleuaeth gofawch nad yw  
eich cyfrif yn breifat neu ni fyddwn  
yn gallu gweld eich cynigion.

## Cwrs Llysgenhadon Lleol newydd ar gael i gymunedau

Erbyn hyn mae 218 o Lysgenhadon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi mynychu cyrsiau dwys tri diwrnod llawn i ddysgu am y Parc Cenedlaethol. Mae pob un ohonyh nhw yn dod o fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth sy'n frwd o blaid y Parc Cenedlaethol ac o blaid rhannu eu gwybodaeth newydd gyda'u hymwelwyr.

Erbyn hyn hefyd mae yna gwrs i Lysgenhadon Lleol sy'n ddefnyddol ar gyfer cymunedau a phobl nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth, ond sydd yn cyfarfod ymwelwyr; naill ai am eu bod yn gwirfoddoli mewn digwyddiadau, yn gweithio mewn siopau neu yn staff achlysurol mewn tafarndai, caffis a bwytai. Mae'r cwrs yn para am ddwy i dair awr ac fel arfer yn cael ei gynnal yn gynnar gyda'r nos.

Os hoffech wybodaeth bellach am y cwrs i Lysgenhadon Lleol, cysylltwch â Carol Williams, Swyddog Twf Twristiaeth [carol.williams@beacons-mpa.gov.uk](mailto:carol.williams@beacons-mpa.gov.uk) Ffôn: 01874 620478.

## Rhowch gynnig ar Tro gyda'r Babi a'r Bygi i wella'ch ffitrwydd!

Os mai eich adduned blwyddyn newydd chi oedd ceisio gwella'ch ffitrwydd yna darllenwch ymlaen: Mae gweithgaredd newydd yn cael ei lansio ym Mharc Gwledig Craig-y-nos a Chanolfan Chwaraeon Ystradgynlais ar ôl hanner tymor mis Chwefror.

Mae'r dosbarthiadau Tro gyda'r Babi a'r Bygi ar gyfer mamau newydd i'w helpu i fynd allan ac i fod yn actif gyda'u babi newydd. Bydd nid yn unig yn rhoi cyfle iddyn nhw gynyddu eu lefelau ffitrwydd ond hefyd i gwrdd â mamau newydd eraill a gwneud ffrindiau. Dyma'r tro cyntaf i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gweithio'n agos gyda Chymunedau yn Gyntaf Cymoedd y Gorllewin, Freedom Leisure, ymwelwyr iechyd lleol a sefydliad nid er elw o'r enw Sblash a Sbrî, roi cynnig ar y dosbarthiadau hyn.

Am ragor o fanylion ewch i <https://www.facebook.com/Sblashasbri> neu cysylltwch ag Eleri Thomas [eleri.thomas@beacons-mpa.gov.uk](mailto:eleri.thomas@beacons-mpa.gov.uk). Ffôn: 01874 624437.

## Hyfforddeion 'Sgiliau ar Waith' yn dysgu sgiliau traddodiadol

Yn 2014 dyfarnodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri gyllid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddarparu swyddi dan hyfforddiant ym maes cadwraeth dros dair blynedd. Mae'r cynllun yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Torfaen a'r enw a roddir arno yw partneriaeth 'Sgiliau ar Waith'.



Yn ddiweddar daeth y bartneriaeth hon â 12 o'n wardeniaid dan hyfforddiant at ei gilydd ar gyfer rhaglen hyfforddi oedd yn gweithio gyda Swyddog Cadwch Gymru'n Daclus, Tom Ward-Jackson a Moyrah Gall o Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae dysgu sgiliau cadwraeth newydd yn rhan sylfaenol o'r prosiect ac roedd yr hyfforddeion wrth eu bodd yn sgwrsio a chymharu nodiadau gyda'u cymheiriaid.

Hyfforddeion 2015/16 yn herio'r tywydd i gwblhau cwrs dau ddiwrnod ar blygu

## Diwrnod i Wardeniaid dan hyfforddiant y Parc Cenedlaethol fod yn falch ohono

Roedd nid un, ond dau o'r wardeniaid dan hyfforddiant eleni yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ym mis Tachwedd i dderbyn Gwobrau Gwirfoddolwyr cyntaf un Huw Price. Cyflwynwyd y gwobrau i Richard Taylor (23) a Steffan Edwards (21) gan Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Mel Doel a Louise a Henry Garnon-Price, gwraig a mab Huw.

Bu farw Huw Price yn 2014 a sefydlwyd cronfa er cof amdano. Mae'r wobwr, a gyflwynir yn flynyddol, yn dathlu'r angerdd oedd gan Huw dros weithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i ymrwymiad i'r gwirfoddolwyr. Fe wnaeth Louise Garnon-Price nid yn unig ddosbarthu Gwobrau Huw Price ond fe wnaeth hefyd gasglu un ar ran ei gŵr, wrth i'r Cadeirydd Mel Doel gyflwyno'r wobwr wedi marwolaeth - Urdd y Parciau Cenedlaethol - iddi i gydnabod cyfraniad eithriadol Huw.

Meddai Richard Taylor "Mae gwirfoddoli wedi rhoi cyfeiriad i'm bywyd a'r sgiliau i mi gael fy nerbyn ar y cynllun hyfforddeion. Rydw i'n teimlo bod hwn yn gyfle gwirioneddol i wneud rhywbeth gwerth chweil.

**O'r chwith i'r dde, Mel Doel, Cadeirydd, Steffan Edwards, Richard Taylor, Louise Garnon-Price a Henry yn y tu blaen.**



## NEWYDDION AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

# 'Cerdded gyda Rhufeiniaid' yn ennill gwobr ddehongli fawr



**Mel Doel, Cadeirydd a Suzanna Jones Swyddog Dehongli gyda'r wobwr.**

a'i weithredu'n dda a oedd yn creu profiad dilys a chofiadwy'.

Bwriedir i'r Ap roi'r holl wybodaeth y mae ar ymwelwyr ei hangen i gynllunio eu hymweliad, eu cefnogi pan fyddant ar safle ac yna argymhell atyniadau eraill i ddilyn y stori Rufeinig. Mae'n hwyl ac yn hawdd ei ddefnyddio ac yn cynnwys dewis o'r enw 'Gwisgwch eich Rhufeiniwr' ac yn cynnwys eitemau fel 'Cerbyd rhyfel a Chleddyf' yn y rhestr i fwrw golwg arni cyn eich ymweliad. Mae'r Ap ar gael am ddim a gellir ei lawrlwytho o [www.breconbeacons.org/romans](http://www.breconbeacons.org/romans) Dylid ei lawrlwytho ar lechi/ffonau clyfar cyn ymweliad gan fod cysylltu â'r rhwydwaith yn anodd ar y mynydd. Os nad ydy cerdded yn un o'ch diddordebau neu os yw'r tywydd yn rhy oer gallwch fwynhau'r fideos a'r sain ar y wefan o gysur eich cadair freichiau hefyd!

Mae 'Cerdded gyda Rhufeiniaid' yn rhan o'r Prosiect Rhufeiniaid yn Sir Gaerfyrddin, Prosiect Twristiaeth Treftadaeth a gefnogir gan Lywodraeth Cymru drwy Cadw ac a gefnogir ymhellach gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â Suzanna Jones, Swyddog Dehongli [suzanna.jones@beacons-npa.gov.uk](mailto:suzanna.jones@beacons-npa.gov.uk) Ffôn 01874 624437.**

## Cydnabyddiaeth ryngwladol wrth i Fforest Fawr ddod yn un o Geoparciau Byd-eang UNESCO



**Mae Geoparc Fforest Fawr wedi cael ei gydnabod fel un o saith Geoparc Byd-eang y DU o dan gynllun UNESCO newydd. Y rhaglen yw'r gydnabyddiaeth ffurfiol gyntaf i Geoparciau Byd-eang sydd bellach â'r un statws pwysig â Safleoedd Treftadaeth Byd UNESCO.**

Mae'r statws yn cydnabod ardal o ddiddordeb daearegol eithriadol ynghyd â'i threftadaeth ddiwydiannol, ddiwylliannol ac archeolegol gwahanol, lle mae'r cymunedau lleol yn hyrwyddo'r ddaearog leol, unigryw i ysgogi datblygiad economaidd yn yr ardal.



**Eleni bydd Gŵyl Geoparc y Fforest Fawr yn cael ei chynnal o 21 Mai hyd 5 Gorffennaf, 2016.**

**Am fwy o wybodaeth gweler <http://www.geoparcyyforestfawr.org.uk> neu cysylltwch ag Alan Bowring, Swyddog Datblygu Geoparc Fforest Fawr [alan.bowring@beacons-npa.gov.uk](mailto:alan.bowring@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01874 620415**

**Llysgenhadon y Geoparc yn derbyn eu tystysgrifau gan staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

## Llwyddiant i Rhianna yng nghystadleuaeth ffotograffau prosiect Cronfa Natur Waun Fach!

Ymwelodd tîm Addysg y Parc Cenedlaethol â 12 ysgol yn ardal y Mynydd Du i godi ymwybyddiaeth am amcanion y Gronfa Natur. Gwahoddwyd y disgyblion i gyflwyno ffoto o'r Mynydd Du ac esbonio pam eu bod yn meddwl ei fod yn arbennig.

Roedd llawer o geisiadau gwych ond roedd Rhianna Haworth, 9 oed, o Ysgol Gynradd Crughywel yn enillydd teilwng yn ôl y beirniaid, sef aelodau o Gymdeithas Porwyr y Mynydd Du. Enillodd Rhianna iPad bach i'w hysgol a nwyddau'r Parc Cenedlaethol iddi hi ei hun. Esboniodd Rhianna mai'r Mynydd Du oedd y lle yr hoffai ymweld ag ef fwyaf.

**Rhianna a'i ffotograff buddugol gyda John Morris, Cadeirydd Cymdeithas Porwyr y Mynydd Du ac Anna Edwards, Swyddog Addysg y Parc Cenedlaethol.**



## NEWYDDION CADWRAETH • NEWYDDION CADWRAETH

# Cymynrodd Cronfa Natur Llywodraeth Cymru yn dod â budd i'r Mynydd Du

Yn dilyn o'r adroddiad yn rhifyn olaf y Diweddariad Cymunedol, mae ymdrechion i adfer mawn oedd wedi dirywio ar Waun Fach yn dangos arwyddion o lwyddiant.



### Arwyddion o welliant ar ôl gwaith cadwraeth ar Waun Fach.

Mae'r llwybr rhwng Waun Fach a Phen y Gadair Fawr wedi tynnu'r pwysau oddi ar y gors lle roedd pobl yn cerdded a bydd yn golygu y bydd planhigion brodorol yn gallu tyfu ar y fawnog lom. I gynorthwyo'r broses hon lledaenwyd matiau bioddiraddadwy a thoriadau o rug dros ardaloedd sensitif. Disgwylir i'r ail-gytrefu gymryd nifer o flynyddoedd, ond mae'r grug a phlanhigion plu'r gweunydd sy'n ymddangos o'r mawn moel yn dweud wrthym fod yr ymdrechion y mae wardeniaid a gwirfoddolwyr wedi eu gwneud gyda buddsoddiad y Gronfa Natur yn talu ar eu canfed. Mae gwaith yn parhau i sefydlogi'r gors fawn a rheoli effeithiau cerddwyr dros y mynydd i gyd. Y gwanwyn hwn, byddwn yn cwblhau'r gwaith ar y llwybr, gan daenu mwy o rug ar y fawnog lom, gan greu sgriniau gwynt gyda deunyddiau naturiol a blocio cwteri i arafu llif y dŵr.

Trwy gynnal gwaith cadwraeth, dylai Waun Fach weld cynnydd dramatig yn nhwf y llystyfiant, gwell ansawdd pori, cynefin ehangach i adar yr ucheldir a phrofiad gwell i ymwelwyr; wrth gadw'r storffeydd carbon sy'n helpu i wrthbwyso newid yn yr hinsawdd.

Ond nid yw manteision y Gronfa Natur yn diweddu yno. Mae porwyr, tîfeddianwyr mawr, a chyrrff cadwraeth wedi dod at ei gilydd i ffurfio Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du i ddatblygu'r gymynrodd hon gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn datblygu ceisiadau am gyllid i barhau i adfer yr ucheldir ac amrywiaeth o brosiectau cadwraeth eraill.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Brad Welch [bradley.welch@beacons-npa.gov.uk](mailto:bradley.welch@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01874 620411.

## Prosiectau mynediad eraill

Mewn manau eraill yn y Parc mae'r tîm yn gwella llwybr Clawdd Offa yn union y tu allan i'r Gelli Gandryll ac ar Gefnen Hatterrall.

Byddwn yn gwella llwybrau ar Fan y Big yng Nghanol y Bannau ac yn bwysicaf oll, bydd ein timau o wirfoddolwyr ar llwybr yr ucheldir yn cynnal y llwybrau sydd eisoes wedi eu hatgyweirio.

CYFLAWNIADAU GWIRFODDOLWYR

## Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@  
beacons-npa.gov.uk  
neu galwch 01874 620452

## Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30, a'r apwyntiad olaf am 11.30 yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu.

Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

## Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am y Gronfa hon cysylltwch naill ai â

Helen Roderick  
neu Ceri Bevan 01874 620471

Ebostiwch  
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk  
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

## Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau grant 2016

14 Mawrth  
8 Mehefin  
31 Awst  
2 Tachwedd

## Myfyrwyr y Brifysgol yn herio'r elfennau i wirfoddoli gyda Wardeniaid y Parc Cenedlaethol



Gwirfoddolwyr o Brifysgol Birmingham yn clirio eithin ac yn edrych braidd yn wlyb.

Treuliodd Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prifysgol Birmingham ddeuddydd fis Tachwedd diwethaf mewn tywydd erchyll yn helpu wardeniaid y Parc Cenedlaethol.

Buont yn gweithio'n galed yn clirio eithin a phrysgwydd o fryngaer Garn Goch o Oes yr Haeam, yn torri a chlirio helyg a mieri o ddôl Carreg Cennen a hefyd yn clirio llwybr troed yr oedd rhwystrau arno ger Llanymddyfri. Roeddent hyd yn oed wedi bwriadu gweryslla dros y penwythnos ond oherwydd y tywydd echrydus trefnodd Toby Small, Warden Ardal, iddynt aros mewn byncws. Er gwaetha'r gwynt a'r glaw, fe wnaethant ddweud mai hwn oedd y penwythnos preswyl gorau iddynt fod arno erioed!

## Gwirfoddolwyr ymroddedig yn rhagori ar amrywiaeth o dasgau cadwraeth

Mae Gwirfoddolwyr y Mynydd Du a Llwybr Ucheldir Canol y Bannau wedi rhagori o ran brwdfrydedd ac ymrwymiad, gan gyflwyno 2530.5 awr mewn amser gwirfoddolwyr mewn blwyddyn a gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ar lwybrau ein ucheldir.

Mae eu gwaith yn helpu i ddiogelu'r dirwedd hardd o fewn y Parc Cenedlaethol a gwarchod ei fioamrywiaeth unigryw. Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae'r gwirfoddolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol hefyd wedi cynorthwyo'r tîm Ecoleg drwy gynnal arolygon o gyflwr y grug a chyfrif grugieir i helpu i gasglu gwybodaeth am Safleoedd o Ddodderdeb Gwyddonol Arbennig yn y Parc Cenedlaethol. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun peilot eleni i ddod yn Llysenhadon Gwirfoddolwyr, gan ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar fioamrywiaeth, archaeoleg a daeareg a fydd yn eu helpu i drosglwyddo'r wybodaeth hon i ymwelwyr.

Am ragor o wybodaeth am wirfoddoli, cysylltwch â Jackie Thomas, Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr jacqueline.thomas@beacons-npa.gov.uk Ffôn: 01874 620451



Gwirfoddolwyr yr Ucheldir ar y Bloreng.

## Eisiau ystafell gyfarfod?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Fideo-gynadledda
- Ystafell Aelodau
- Ystafell hyfforddi TG
- Gwasanaeth Arlwyo ar gael

Am fanylion cysylltwch â'r Dderbynfa 01874 624437 neu edrychwch ar <http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

## Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Babell Fawr Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau, ysgolion, elusennau a sefydliadau di-elw eraill o fewn y Parc Cenedlaethol ddefnyddio'r Babell Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu, cysylltwch â Ceri Bevan ar 01874 620471

## Gweddarllodiadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein gweddarllodiadau. Ewch i: <http://www.beaconsnpa.gov.uk/the-authority/webcasting/>



## Digwyddiadau Mis Chwefror-Mis Awst

I weld rhestr estynedig o weithgareddau yn y Parc Cenedlaethol ewch i: [www.breconbeacons.org](http://www.breconbeacons.org)

Digwyddiadau yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

## Ffair Celf a Chrefft

Dewch i weld ein dewis eang o gelf a chrefft. Gwnaethpwyd yn lleol. Mynediad am ddim. Taliadau parcio ceir yn weithredol.

Dydd Sadwrn 13 Chwefror – Dydd Sul 21 Chwefror  
Dydd Sadwrn 19 Mawrth – Dydd Sul 3 Ebrill  
Dydd Sadwrn 27 Mai – Dydd Sul 4 Mehefin

10 yb – 4 yp pob dydd.

## Syllu ar y Sêr

Cyfres o Ddarlithoedd gan Gyn-seryddwr NASA ac yna Syllu ar y Sêr pe bai'r tywydd yn caniatáu. 19.30-22.00 Pob sesiwn. Oedolion £15, plant 10 - 16 £10 (nid yw yn addas i blant o dan 10). Yn cynnwys parcio, te/coffi, darlith a defnydd o delesgop. Archebu ymlaen llaw yn unig.

Nos Wener 26 Chwefror	Y Lleud a Dychymyg Gorllewinol
Nos Wener 18 Mawrth	Y 'Big Bang'
Nos Wener 29 Ebrill	Cyswllt ag Estroniaid
Nos Wener 27 Mai	Golau'r sêr a'u bywydau
Nos Wener 24 Mehefin	Seryddiaeth a Chelf

DIGWYDDIADAU • DIGWYDDIADAU • DIGWYDDIADAU

Mae ein Canolfan Ymwelwyr a'r Parc Gwledig ar agor bob dydd o'r flwyddyn ac eithrio Dydd Nadolig. Mae mynediad am ddim ond codir tâl am barcio.

### Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, ger Aberhonddu  
LD3 8ER

- Gwybodaeth
- Ystafelloedd Te a Bwyty
- Siop anrhegion
- Toiledau
- Hurio Ystafelloedd
- Priodasau

Ffôn: 01874 623366  
npvc@beacons-npa.gov.uk

### Parc Gwledig Craig-y-nos

Pen-y-cae, Cwm Tawe SA9 1GL

- Ystafelloedd Te a Bwyty - Changing Seasons  
Ffôn: 01639 731498
- Toiled i bobl anabl gyda lle i newid clwt y baban 24 awr
- Hurio ystafelloedd

Ffôn: 01874 624437  
enquiries@beacons-npa.gov.uk



### Sioe Babel

Dydd Sadwrn 30 Ebrill - Dydd Llun 2 Mai, 10yb-5yp

### Sioe Moduron Clasurol Aberhonddu a Maesyfed

Dydd Sul 7 Awst. 10yb-5yp

### Ffair Haf Bannau Brycheiniog

Dydd Sadwrn 27 Awst - Dydd Llun 29 Awst, 10yb-5yp

## Gweithgareddau eraill

### Pawennau yn y Parc

Parc Gwledig Craig-y-nos, Pen-y-cae, SA9 1GL

*Dewch â'ch ci i Barc Gwledig Craig y nos i gwrdd â Wardeniaid y Parc Cenedlaethol. Gwelir arddangosiadau tîm cŵn yn cynnwys cŵn yr heddlu a chŵn gwaith. Darganfod mwy am fynd â'ch ci am dro yn y Parc a chefn gwlad.*

Dydd Mercher 17 a Dydd Iau 18 Chwefror 10yb - 4yp ym Mharc Gwledig Craig-y-Nos

### Gŵyl Geoparc Fforest Fawr

*Teithiau cerdded, sgysiau ac arddangosfeydd am y Geoparc. Lleoliadau ac amserau amrywiol.*

21 Mai - Dydd Sul 5 Mehefin

### Diwrnod Geoparc Fforest Fawr ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

Parc Gwledig Craig-y-nos

*Gweithgareddau i'r holl deulu.* Dydd Mercher 1 Mehefin. 10yb-4yp

### Gŵyl Fwyd Haf y Gelli Gandryll

Dydd Sadwrn 2 Gorffennaf. 10yb-5yp

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Richard Mears	richard.mears@beacons-npa.gov.uk	01874 620425
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, Libanus 'Y Ganolfan Fynydd'	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir	Julian Atkins	anne.wilkinson@beacons-npa.gov.uk	01874 620456
Cyfathrebu a'r wasg	Jo Maurice Clarissa Price	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cyfarwyddwr Cynllunio	Christopher Morgan	danielle.french@beacons-npa.gov.uk	01874 620428
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Matt Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	01874 620465
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Fiona Mead/Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Jackie Thomas	jacqueline.thomas@beacons-npa.gov.uk	01874 620451

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

www.breconbeacons.org  
www.visitbreconbeacons.com  
www.cyclebreconbeacons.com  
www.horseridingbreconbeacons.com  
www.mtbbreconbeacons.com  
www.businessinfobreconbeacons.com

## Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Gallwch drydar â ni ar @BreconBeaconsNP

neu â Thîm ein Wardeniaid ar @BBParkWarden



Dilynwch ni drwy Facebook  
[www.facebook.com/breconbeaconsnationalpark](http://www.facebook.com/breconbeaconsnationalpark)



Gweler ein Youtube Channel Videos  
[www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA](http://www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA)



[www.instagram.com/breconbeacons](http://www.instagram.com/breconbeacons)

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

[www.breconbeacons.org](http://www.breconbeacons.org)  
[www.visitbreconbeacons.com](http://www.visitbreconbeacons.com)  
[www.cyclebreconbeacons.com](http://www.cyclebreconbeacons.com)  
[www.horseridingbreconbeacons.com](http://www.horseridingbreconbeacons.com)  
[www.mtbbreconbeacons.com](http://www.mtbbreconbeacons.com)  
[www.businessinfobreconbeacons.com](http://www.businessinfobreconbeacons.com)

Dyluniad: touchdown 07973 711523

# A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	<a href="mailto:eifion.jones@beacons-mpa.gov.uk">eifion.jones@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	<a href="mailto:enquiries@beacons-mpa.gov.uk">enquiries@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 624437
Prif Weithredwr	John Cook	<a href="mailto:jean.packer@beacons-mpa.gov.uk">jean.packer@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	<a href="mailto:helen.lucocq@beacons-mpa.gov.uk">helen.lucocq@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 620429
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	<a href="mailto:paul.funnell@beacons-mpa.gov.uk">paul.funnell@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 620459
Treftadaeth	Natalie Ward Rosie Burton	<a href="mailto:natalie.ward@beacons-mpa.gov.uk">natalie.ward@beacons-mpa.gov.uk</a> <a href="mailto:rosie.burton@beacons-mpa.gov.uk">rosie.burton@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 620418 01874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	<a href="mailto:richard-tyler@beacons-mpa.gov.uk">richard-tyler@beacons-mpa.gov.uk</a>	01874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	<a href="mailto:judith.harvey@beacons-mpa.gov.uk">judith.harvey@beacons-mpa.gov.uk</a>	07854 9975 10

